# O'r Fro i'r Byd

From Grassroots to Global

Cynllun Strategaeth
2024-2030

MENTERA
mentera.cymru

# A fo ben, bid bont.

If you want to be a leader, be a bridge.

MENTERA

## Cynnwys.


03 **Cyflwyniad**

04 **Pwrpas**

05 **Gweledigaeth**

06 **Egwyddorion Craidd**

07 **Sut rydym yn gweithio**

09 **Cyd-destun Strategol**

12 **Ysbrydoli:** Rhyddhau ysbryd entrepreneuraidd Cymru

13 **Darparu:** Cefnogi ffyniant pobl a busnesau

14 **Arloesi:** Torri tir newydd i greu dyfodol gwel

15 **Eirioli:** Dylanwadu ar bolisi ac ymarfer

16 **Mesur Llwyddiant**




# Sicrhau dyfodol ffyniannus i Gymru, heddiw ac yfory



## Cyflwyniad.

Mae Mentera wedi bod yn ysbrydoli a chefnogi pobl a busnesau ledled Cymru ers 1989. Dros y cyfnod hwnnw, rydym wedi ennill enw da am greadigrwydd a rhagoriaeth. Rydym yn cael ein cydnabod fel arbenigwyr, ac yn ddarparwr blaenllaw o gyngor a chymorth i entrepreneuriaid a busnesau.

Rydym yn ddigyffelyb yn ein gallu i ddarparu ystod eang o wasanaethau yn ddwyieithog. Yn ogystal, mae ein staff, sy'n wybodus ac egnïol, wedi eu gwreiddio'n lleol, sy'n ein galluogi i ymgysylltu ac ennyn brwdfrydedd darpar entrepreneuriaid a pherchnogion busnes yn eu milltir sgŵar eu hunain.

Rydym hefyd yn ymfalchïo yn ein hanes o weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a darparu gwasanaethau, gan gynnwys rheoli ymyriadau eang ar ran arianwyr mewn ffordd drylwyr.

Yn dilyn penodi aelodau newydd i'r Bwrdd, penodi prif weithredwr newydd a newidiadau sylweddol i'r dirwedd ariannu, dyma gyfle i osod cyfeiriad clir i'n cwmni ar gyfer y cyfnod nesaf. Gyda hyn mewn golwg, cynhaliwyd adolygiad o hyd a lled ein gwaith, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n berthnasol i'n cleientiaid, ac yn parhau i feithrin a chefnogi busnesau gwydn a chynaliadwy ledled Cymru.

O ganlyniad, mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein pwrpas, ein gweledigaeth a'r egwyddorion craidd hynny a fydd yn sail i'n holl waith dros y chwe blynedd nesaf.

# Pwrpas.

Rydyn ni'n ysbrydoli busnesau a chymunedau i fod yn fentrus, ac yn eu galluogi i ffynnu – yn lleol ac yn rhyngwladol.

Rydym yn helpu busnesau bach a mawr i dyfu a ffynnu wrth annog a chefnogi pobl i sefydlu busnesau newydd, arloesol. Rydym yn cyflawni hyn ledled Cymru wrth deilwra gwasanaethau o safon uchel, a chan fanteisio ar arbenigedd ein pobol, ein presenoldeb daearyddol a'n cysylltiadau cryf ag arweinwyr diwydiant, llywodraeth a phartneriaid eraill.

Rydym ni'n ysbrydoli busnesau a chymunedau i fod yn fentrus, ac yn eu galluogi i ffynnu – yn lleol ac yn rhyngwladol.



Economi lewyrchus i Gymru sy'n cael ei gyrru gan gymuned gref o fusnesau llwyddiannus, o safon ryngwladol.



# Gweledigaeth.

Economi lewyrchus i Gymru sy'n cael ei gyrru gan gymuned gref o fusnesau llwyddiannus, o safon ryngwladol.

Wrth ddarparu cefnogaeth fusnes o'r radd flaenaf, byddwn yn ysbrydoli a chefnogi pobl i sefydlu ac arwain busnesau llwyddiannus, arloesol ac uchelgeisiol. Bydd llwyddiant y busnesau hyn yn arwain at dwf economaidd cynaliadwy yng Nghymru, gan godi safonau byw, creu cymunedau mwy cydlynus a gwarchod yr amgylchedd.

# Egwyddorion Craidd

Mae ein gwaith a'n gwasanaethau oll yn seiliedig ar yr egwyddion craidd.

## Meithrin Arloesedd

Rydym yn uchelgeisiol, yn angerddol ac yn ysbrydoli eraill wrth gynnig datrysiadau creadigol, ymarferol a chynaliadwy o'r safon uchaf.

## Gweithredu'n Ddeinamig

Rydym yn ystwyth ac yn flaengar, yn frwdfrydig, ac yn addasu'n bositif i farchnadoedd a chyfleoedd sy'n newid yn barhaus.

## Gwneud Gwahaniaeth

Rydym yn rhoi pobl wrth galon ein gwaith, ac yn sicrhau gwahaniaeth hirdymor drwy weithio mewn modd cynhwysol a phwrpasol.

# Sut rydym yn gweithio

Mae'r ffordd yr ydym yn gweithio wedi ei siapio gan egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Canolbwyntio ar y cleient

Rydym yn gweithio i sefydlu perthynas adeiladol â busnesau, gan ddod i ddeall eu hanghenion a'u huchelgais, a defnyddio ein deallusrwydd a'n cysylltiadau i'w helpu i ddod o hyd i atebion. Rydym bob amser eisiau'r gorau i'n cleientiaid ac yn barod i fynd y filltir ychwanegol i'w helpu i arloesi, datblygu a thyfu.

## Cydweithredol

Rydym yn gweithio gydag eraill pan all hynny ychwanegu gwerth i'n cleientiaid neu agor drysau ar arbenigedd neu farchnadoedd newydd.

## Cynaliadwy

Rydym yn edrych y tu hwnt i allbynnau uniongyrchol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac effeithiau hirdymor yr hyn a wnawn. Defnyddiwn ein hadnoddau'n effeithlon ac yn gymesur wrth gynllunio a darparu.

## Cymreig

Rydym wedi ein gwreiddio yng Nghymru ac yn angerddol am yr iaith Gymraeg a diwylliant ein gwlad. Rydym yn defnyddio a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn feunyddiol ac yn hybu brand a busnesau Cymru.

# Ymrwymo i ragoriaeth a gwella'n barhaus

Rydym yn ymrwymo i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol a fydd yn ysgogi newid cadarnhaol o fewn ein cwmni, er mwyn ei wneud yn weithle mwy effeithiol ac effeithlon.

## Llywodraethiant

Rydym yn sefydliad sy'n gweithredu ar sail gwerthoedd, ac yn anelu i fodloni'r safonau proffesiynol a moesegol uchaf bob amser. Rydym yn gwerthuso ac yn diweddaru ein strwythurau a'n ffordd o weithio yn rheolaidd, ac yn datblygu systemau llywodraethu cadarn a thryloyw sy'n golygu bod gennym ganllaw gref ar gyfer ymddygiad a gwneud penderfyniadau. Wrth edrych tua'r dyfodol byddwn yn datblygu dull gweithredu sy'n mynd ar drywydd cynaliadwyedd, cynhwysiant, a thwf economaidd.

## Technoleg

Ein nod yw gwreiddio technoleg ddigidol ym mhob maes o'n cwmni, gan newid yn sylfaenol sut rydym yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'n cleientiaid. Byddwn yn gwneud hyn wrth herio'r drefn yn barhaus, ac wrth arbrofi â dulliau newydd a gwahanol er mwyn dod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol. Rydym yn awyddus i ddatblygu'r sgiliau, y systemau a'r bobl angenrheidiol er mwyn addasu i ddatblygiadau technolegol a thueddiadau'r dyfodol.

## Pobl

Rydym yn ymwybodol bod llwyddiant yn dibynnu ar ein hadnodd mwyaf hanfodol, sef ein pobl, ein staff. Ein pobl sy'n cael syniadau, yn datrys problemau, yn gwneud penderfyniadau ac yn gweld cyfleoedd i wella'r sefydliad. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd datblygu i staff er mwyn creu gweithlu sydd, nid yn unig â sgiliau cryf, ond hefyd yn meddu ar brofiad ymarferol yn eu maes gwaith. Bydd gweithlu amrywiol, a gwasgariad daearyddol staff hefyd yn allweddol wrth i ni gefnogi twf busnesau a chleientiaid.

## Delwedd

Wrth i ni osod sylfeini cadarn ar gyfer dyfodol economi Cymru, mae'n bwysig ein bod ni'n gweithio mewn modd cydweithredol i ddatblygu delwedd ein cwmni a delwedd Cymru. Mae sicrhau delwedd allanol bositif ymysg y cyhoedd, cleientiaid, ymwelwyr a rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd. Byddwn yn cyfoethogi a chryfhau delwedd y cwmni ac yn gweithredu ar ran y gymuned fusnes i ddylawnadu ar gefnogaeth y dyfodol.

# Cyd-destun Strategol

Dros y chwe blynedd nesaf, bydd amryw o ddatblygiadau byd-eang yn effeithio ar gymdeithas ac economi Cymru. Bydd rhai datblygiadau yn cynnig cyfleoedd cyffrous i unigolion a busnesau, tra bod eraill yn debygol o greu heriau.

Dyma isod rai o'r datblygiadau a all effeithio ar fusnesau - ac, felly, ar ein gwaith ni.

## Cymdeithasol-Economaidd

Poblogaeth sy'n heneiddio, sydd wedyn â goblygiadau o ran maint a sgiliau'r gweithlu.

Amodau economaidd ansicr, megis effeithiau Brexit, pandemig Covid, tensiynau gwleidyddol byd-eang, chwyddiant a chostau benthyg uchel.

## Technolegol

Mae technoleg yn arf all drawsnewid y ffordd y mae busnesau'n gweithredu. Gall leihau costau, gwella cynhyrchiant, cynnig mynediad at farchnadoedd newydd, a gwella profiad y cwsmer.

Nid ydym eto wedi deall yn llawn oblygiadau dyfodiad Deallusrwydd Artiffisial (AI), ond mae'n debygol o gynnig cyfleoedd a heriau i fusnesau.

Mae'r galw a'r gystadleuaeth am sgiliau technolegol yn debygol o gynyddu.

## Amgylcheddol

Yn gynyddol, mae materion amgylcheddol yn dod i'r amlwg ac yn dylanwadu fwyfwy ar benderfyniadau ac ymddygiad busnesau ac unigolion.

Mae sectorau amaethyddiaeth, prosesu bwyd a diod, ac ynni gwyrdd yn sectorau allweddol bwysig i economi Cymru, ac wedi eu nodi fel rhai a all chwarae rhan bwysig wrth helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

## Iaith

Mae posibilrwydd y bydd yn dod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau bod eu staff yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gwleidyddol

Llywodraeth Cymru o dan bwysau ariannol ac yn sgil hynny'n gorfod blaenoriaethau, a hynny o bosib mewn meysydd lle nad ydym yn gweithredu.

Gostyngiad yn yr arian cyhoeddus sydd ar gael i gefnogi busnesau a chymunedau.

Gostyngiad sylweddol yn y gefnogaeth ariannol sydd ar gael i fusnesau a chymunedau gwledig.

# Cyd-destun Strategol

**Gweledigaeth**

Economi lewyrchus i Gymru sy'n cael ei gyrru gan gymuned gref o fusnesau llwyddiannus, o safon ryngwladol

**Pileri Strategol**

- **Ysbrydoli** – Rhyddhau ysbryd entrepreneuraidd Cymru
- **Darparu** – Cefnogi ffyniant pobl a busnesau
- **Eirioli** – Dylanwadi ar bolisi ac ymarfer
- **Arloesi** – Torri tir newydd i greu dyfodol gwell

**Galluogwyr**

Ymrwymo i ragoriaeth a gwella'n barhaus

- Llywodraethiant
- Pobl
- Technoleg
- Delwedd

**Ffyrdd o Weithio**

- Canolbwyntio ar y cleient
- Cydweithredol
- Cynaliadwy
- Cymreig

**Egwyddorion Craidd**

- Meithrin Arloesedd
- Gweithredu'n Ddeinamig
- Gwneud Gwahaniaeth

**Pwrpas**

Rydyn ni'n ysbrydoli busnesau a chymunedau i fod yn fentrus, ac yn eu galluogi i ffynnu - yn lleol ac yn rhyngwladol

# Pileri Strategol

## Ysbrydoli: rhyddhau ysbryd entrepreneuraidd Cymru

***Rydym ni'n ysbrydoli pobol a busnesau yn frwdfrydig wrth adrodd straeon real a chymhellol.***

**Dyma sut byddwn yn gwneud hyn:**

Meithrin agweddau mentrus ymhlith pobl ifanc trwy weithio gyda'r sector addysg i gynnig gweithdai i bobl ifanc, dod â nhw i gysylltiad â busnesau a'u cefnogi i ddatblygu eu syniadau busnes eu hunain.

Creu cymuned o entrepreneuriaid sy'n awyddus i ddysgu wrth ei gilydd a gyda'i gilydd, er mwyn sbarduno syniadau ac arloesedd.

Gweithio gyda phartneriaid i sefydlu hybiau menter sydd ag awyrgylch cyffrous a chydweithredol, ble gellir cael mynediad at wasanaethau a chyngor busnes safonol ac amserol.

Cynllunio a rhoi ar waith strategaeth gyfathrebu i ysbrydoli pobl a busnesau, gan greu bwrlwm am fentro, a sefydlu ein hunain fel y corff sy'n cynrychioli mentergarwch mewn cymunedau ledled Cymru.

Manteisio ar bwêr partneriaethau strategol er mwyn cynyddu effaith, cynnig arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd arloesol.

Rhannu arfer da a thynnu sylw at bynciau allweddol trwy gyfres o ddigwyddiadau cyfoes a chyffrous gyda'r gymuned fusnes, ein partneriaid, a'n rhanddeiliaid.

## Darparu: cefnogi ffyniant pobl a busnesau

***Rydym ni'n angerddol dros gefnogi busnesau Cymru i arloesi, tyfu a ffynnu, drwy rannu ein harbenigedd, creu cysylltiadau a darparu cymorth pwrpasol.***

**Dyma sut byddwn yn gwneud hyn:**

Helpu i lansio ac egnïo'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid wrth ddarparu cyngor arbenigol, gweithdai, cyfleoedd rhwydweithio a chymorth i gael gafael ar fenthyciadau a chyllid grant.

Helpu busnesau sefydledig i ehangu a thyfu wrth ddarparu cymorth wedi'i deilwra, mentora pwrpasol a mynediad at arbenigwyr yn eu diwydiant.

Sicrhau bod adnoddau digidol sy'n benodol i'r sector ar gael ac annog defnydd ohonynt i gynorthwyo datblygiad a thwf busnes, gan fanteisio ar ein harbenigedd, ein profiad a'n cysylltiadau.

Gweithio ochr yn ochr â phartneriaid i redeg rhaglenni cronfa her a chynlluniau grant sy'n ymgysylltu ag unigolion, busnesau a chymunedau, ac yn ysgogi arloesedd a menter.

Sicrhau darpariaeth gyson, gyfartal ac o safon wrth gefnogi unigolion a busnesau mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru.

# Pileri Strategol

## Arloesi:
## torri tir newydd i greu dyfodol gwell

***Rydym ni'n arloesi, gan ddatblygu ein harbenigedd bresennol gan gryfhau ein dealltwriaeth, ein darpariaeth a'n dulliau.***

**Dyma sut byddwn yn gwneud hyn:**

Datblygu ein cryfderau a'n cysylltiadau presennol er mwyn sefydlu gwasanaethau newydd mewn meysydd neu sectorau sy'n ychwanegu at ein harbenigedd.

Ymchwilio marchnadoedd newydd a chyfleoedd i arloesi, gan weithio gyda'n partneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol, lle gall hynny ychwanegu gwerth.

Archwilio sut gallwn ddefnyddio technoleg er mwyn cysylltu â'n cwsmeriaid, a'u gwasanaethu yn fwy effeithiol, ac i wneud gwell defnydd o'n hadnoddau.

Dylunio a threialu pecynnau cymorth trawiadol sy'n mynd i'r afael â heriau busnes penodol, i'w ddarparu mewn ffordd gyson ac o safon, yn rhithwir ac mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru.

Datblygu a gwella gwasanaethau ymgynghori busnes arbenigol i'w darparu ar sail fasnachol, gan ddatblygu ein harbenigedd mewn sectorau busnes allweddol.

## Eirioli:
## dylanwadu ar bolisi ac ymarfer

***Rydym ni'n chwaraewr allweddol ym maes cymorth busnes yng Nghymru ac rydym yn awyddus i gydweithio gyda'n partneriaid i rannu, dysgu a gwella'r ffordd y caiff busnesau eu cefnogi.***

**Dyma sut byddwn yn gwneud hyn:**

Ymyrryd ar ran busnes trwy rannu adborth a gwybodaeth am faterion sy'n effeithio arnynt gyda llunwyr polisi.

Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i helpu i lunio polisïau a rhaglenni sy'n mynd i'r afael ac anghenion busnesau.

Gweithio gyda'n partneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol i adnabod a rhannu arferion da o ran cynghori a chefnogi busnesau er mwyn gwella gwasanaethau a darparu'r hyn mae busnesau ei angen.

Cyhoeddi asesiad o effaith economaidd a chymdeithasol y cwmni.

# Mesur Llwyddiant

Rydym yn ymrwymo i adolygu ac adrodd ar ein perfformiad yn flynyddol. Byddwn hefyd yn mesur effaith ein gweithgareddau ar yr unigolion a'r busnesau yr ydym yn eu cefnogi.

Dyma'r prif fesurau y byddwn yn eu defnyddio i asesu ein perfformiad rhwng nawr a 2030, gyda fframwaith perfformiad llawnach i olrhain effeithiolrwydd ac effeithiau rhaglenni a gweithgareddau unigol.

## Gwasanaethau

Darparu gwasanaeth o ansawdd aruchel i'n cleientiaid a'n cwsmeriaid.

## Perfformiad

Cryfhau ein perfformiad masnachol fel cwmni.

## Cynaliadwyedd

Sicrhau dyfodol ffyniannus i'r cwmni – a gwarged y gellid ei ailfuddsoddi er lles.

## Delwedd

Codi ein statws fel prif ddarparwr gwasanaethau busnes Cymru. Cwmni y gellid ymddiried ynddo.

## Dylanwad

Cynyddu ein heffaith economaidd.

MENTERA

mentera.cymru